OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2011 (Cy.221) (C.74)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2011

*Gwnaed - - - - 9 Awst 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 178(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(**1**).

### Enwi, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2011 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Mesur" ("the Measure") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Awst 2011

**2.** Daw darpariaethau canlynol y Mesur i rym ar 31 Awst 2011—

(a) adrannau 1 i 3 (arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr);

(b) adran 141 (y Panel);

(c) adran 142 (swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(ch) adran 143 (swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau aelodau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(d) adran 144 (awdurdodau perthnasol, aelodau etc.);

(dd) adran 145 (adroddiadau blynyddol) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(e) adran 146 (yr adroddiad blynyddol cyntaf);

(f) adran 148 (ymgynghori ar adroddiadau drafft) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(**1**) 2011 mccc 4.

(ff) adran 149 (cyfarwyddiadau i amrywio adroddiadau drafft) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(g) adran 150 (gofynion gweinyddol mewn adroddiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(ng) adran 151 (gofynion cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(h) adran 152 (rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(i) adran 154 (aelodau sy'n dymuno ymwrthod â'u hawl i gael taliadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(j) is-adrannau (2), (3) a (4) o adran 155 (peidio â gwneud taliadau) i'r graddau y maent yn ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(l) adran 156 (cyfarwyddiadau i gydymffurfio â gofynion) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(ll) adran 157 (canllawiau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

(m) adran 158 (y pŵer i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch y Panel);

(n) adran 161 (canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig);

(o) adrannau 162 i 171 (cyfuno);

(p) Atodlen 2 (y Panel).

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau,
Un o Weinidogion Cymru

9 Awst 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn dwyn i rym ar 31 Awst 2011 ddarpariaethau yn y Mesur a nodir yn yr erthygl honno ac y cyfeirir atynt isod:

adrannau 1 i 3 (arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr);

adran 141 (y Panel) sy'n cyflwyno Atodlen 2 (y Panel) sy'n nodi'r gweithdrefnau o ran penodi, gweinyddu a sicrhau cymorth ar gyfer y Panel (gan gynnwys anghymhwyso rhag bod yn aelod);

adran 142 (swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 143 (swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau aelodau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 144 (awdurdodau perthnasol, aelodau etc.);

adran 145 (adroddiadau blynyddol) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 146 (yr adroddiad blynyddol cyntaf);

adran 148 (ymgynghori ar adroddiadau drafft) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 149 (cyfarwyddiadau i amrywio adroddiadau drafft) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 150 (gofynion gweinyddol mewn adroddiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 151 (gofynion cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 152 (rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 154 (aelodau sy'n dymuno ymwrthod â'u hawl i gael taliadau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

is-adrannau (2), (3) a (4) o adran 155 (peidio â gwneud taliadau) i'r graddau y maent yn ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 156 (cyfarwyddiadau i gydymffurfio â gofynion) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 157 (canllawiau) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adroddiad o dan adran 146;

adran 158 (y pŵer i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch y Panel);

adran 161 (canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig) sy'n diwygio Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi

canllawiau statudol ar bob agwedd ar bwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol o dan y Mesur hwnnw;

adrannau 162 i 171 (cyfuno). Mae Pennod 2 o Ran 9 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru gyfuno, drwy orchymyn, ddau neu dri awdurdod lleol (a dim mwy na hynny) i greu un ardal llywodraeth leol newydd yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn y Bennod honno;

Atodlen 2 (y Panel) sy'n nodi'r gweithdrefnau o ran penodi, gweinyddu a sicrhau cymorth ar gyfer y Panel (gan gynnwys anghymhwyso rhag bod yn aelod).

Gweler hefyd adran 178 (cychwyn) ar gyfer darpariaethau sy'n dod i rym ar ôl pasio'r Mesur.